OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1237 (Cy.107)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) 2010

Gwnaed - - - -	*9 Ebrill 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*12 Ebrill 2010*
Yn dod i rym - -	*12 Ebrill 2010*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 130, 131 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 12 Ebrill 2010.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 2007" ("*the 2007 Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007(**3**).

Diwygio Rheoliadau 2007

3.—(1) Mae Rheoliadau 2007 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yng Ngholofn 2 o Dabl A yn Atodlen 1 (addasiadau i Reoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987), yn lle'r addasiad i baragraff (1A) o reoliad 53 (cyfrifo incwm tariff o gyfalaf) o'r Rheoliadau hynny rhodder "Hepgorer paragraff 1A".

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**3**) O.S. 2007/1104 (Cy.116). Yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2008/1480 (Cy.153), 1879 a 2568 (Cy.226); a 2009/709 (Cy. 61).